# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Rhaglen Gyfalaf 2023/24 –<br>Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2024) |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Paul Rowlinson, Aelod Cabinet Cyllid |
| **Swyddog perthnasol:** | Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 14 Mai 2024 |

1. **Penderfyniad a Geisir:**
   - Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2024) o'r rhaglen gyfalaf.
   - Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad, sef:
     - cynnydd o £2,189,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
     - cynnydd o £132,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
     - cynnydd o £645,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
     - cynnydd o £87,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

2. **Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

   Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor. Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf. Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3.2.2) a'i ariannu (rhan 3.2.3).

   Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2023/24 – 2025/26.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

   **3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

   Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn diwedd blwyddyn 2023/24. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3.2.2 a rhan 3.2.3 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 1:

   - Rhan 3.2.2: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £188.929m am y 3 blynedd 2023/24 – 2025/26.
   - Rhan 3.2.3: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £3.053m ers yr adolygiad diwethaf.

- Rhan 3.2.4: Manylder grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf.
- Rhan 3.2.5: Dadansoddiad dangosyddion darbodus cyfalaf.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

**3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

**3.2.1 Prif Gasgliadau**

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw:

- Buddsoddwyd £56.9m yn 2023/24 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £33.1m (58%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Mae effaith heriau ariannol diweddar yn parhau ar y rhaglen gyfalaf ac i'w weld yn y ffigyrau a adroddir. Ceir ail broffilio oherwydd oediad bwriadol i rai cynlluniau oherwydd cynnydd aruthrol yn y prisiau deunyddiau adeiladu yn ogystal ag oedi mewn pryniant rhai cerbydau.

- Mae £34.1m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2023/24 i 2024/25 a 2025/26, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cygnor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

### 3.2.2 Rhaglen Gyfalaf 2023/24 i 2025/26

Gweler isod y rhaglen gyfalaf derfynol am 2023/24 ar ddiwedd Mawrth 2024, gyda'r sefyllfa arfaethedig ddiwygiedig i'r blynyddoedd dilynol:

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 12,972 | 18,308 | 40 | 31,320 | 705 |
| Amgylchedd | 5,084 | 5,484 | 776 | 11,344 | (579) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | - | - | - | - | - |
| Cyllid | 716 | 2,252 | 498 | 3,466 | 161 |
| Economi a Chymuned | 18,551 | 38,110 | 3,239 | 59,900 | (1,511) |
| Tai ac Eiddo | 10,319 | 28,915 | 7,130 | 46,364 | 2,647 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 382 | 6,680 | - | 7,062 | 101 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,131 | 490 | - | 1,621 | 1,089 |
| Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth | 7,717 | 11,702 | 2,011 | 21,430 | 212 |
| Prif Weithredwr | 39 | - | - | 39 | 39 |
| Corfforaethol | - | 5,883 | 500 | 6,383 | 189 |
| **CYFANSWM** | **56,911** | **117,824** | **14,194** | **188,929** | **3,053** |

### 3.2.3 Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £3.053m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu terfynol am 2023/24 ar ddiwedd Mawrth 2024, gyda'r sefyllfa arfaethedig ddiwygiedig i'r blynyddoedd dilynol:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MAWRTH | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | CYFANSWM | Addasiad Technegol | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,061 | 8,233 | 6,610 | 18,904 | (4,172) | 0 |
| Benthyca Arall | 4,047 | 13,006 | 2,880 | 19,933 | 0 | 0 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 37,224 | 46,559 | 3,239 | 87,022 | 4,733 | 2,189 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 249 | 129 | - | 378 | 0 | 132 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 3,138 | 49 | - | 3,187 | (230) | 645 |
| Cronfa Cyfalaf | 1,417 | 21,160 | 41 | 22,618 | (331) | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 6,775 | 28,688 | 1,424 | 36,887 | 0 | 87 |
| **CYFANSWM** | **56,911** | **117,824** | **14,194** | **188,929** | **0** | **3,053** |

### 3.2.4 Grantiau Ychwanegol

Ers yr adolygiad diwethaf, ddiwedd Tachwedd, llwyddodd y Cyngor i ddenu grantiau ychwanegol o £5,939k a rhestrir y rhai mwyaf isod. Mae nifer o addasiadau ychwanegol gan gynnwys lleihad ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £2,189k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £1,755k Grant tuag at y cynllun i Ddatgarboneiddio Gwres o fewn y Cyngor
- £1,100k Grant cyfalaf Dechrau'n Deg a Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru
- £659k Grant Llywodraeth Cymru tuag at bryniant eiddo i gwrdd â gofynion yn y maes Digartrefedd
- £392k Grant Isadeiledd Sbwriel gan Lywodraeth Cymru - cywiro sefyllfa diwedd blwyddyn 22/23
- £358k Grant Cynnal a Chadw Ysgolion 2023/24

- £334k Cronfa Tai â Gofal (CTG/HCF) - grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau arloesol tai i gwrdd ag anghenion gofal
- £261k Grantiau cynllun ARFOR 2 tuag at ddatblygu cymunedau mentrus gan Lywodraeth Cymru
- £234k Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill

**3.2.5 Dangosyddion Darbodus Cyfalaf**

Mae Côd Darbodus CIPFA yn nodi'r angen i adrodd ar y Dangosyddion Darbodus ( gweler Atodiad C am fwy o fanylion).

**3.3 Camau nesaf**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â'r broses i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

**4. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**4.1 Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**4.2 Swyddog Monitro**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad A - Manylion y Prif Newidiadau

Atodiad B - Manylion Ail-broffilio

Atodiad C – Dangosyddion Darbodus Cyfalaf

**Rhestr Dogfennau Cefndir:**

Cyllideb 2023-2024 : Cyllidebau Blynyddol (llyw.cymru)

Strategaeth Cyfalaf 2023-24 : Cyngor Llawn 02/03/23 Eitem 9 - Strategaeth Gyfalaf 2023-24 yn cynnwys Strategaeth Buddsoddi a Benthyca.pdf (llyw.cymru)

**ATODIAD A**

**Manylion y Prif Newidiadau**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf:

| | 2023/24<br>£'000 | 2024/25-2025/26<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Grant Cynnal a Chadw Ysgolion 2023/24 *(Adran Addysg).* | 358 | |
| • Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – addasu ac ychwanegu amrywiol gynlluniau e.e. Ysgol Chwilog *(Adran Addysg).* | 106 | |
| • Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – swm ychwanegol Cinio am Ddim *(Adran Addysg).* | 60 | |
| • Rhan cychwynnol o'r Grant Her Ysgolion Cynaliadwy tuag at Ysgol Bontnewydd *(Adran Addysg).* | 60 | |
| • Grant Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) - Cynllun Adnewyddu Bangor a grantiau eraill llai yn y maes adnewyddu *(Adran Economi a Chymuned).* | 78 | |
| • Grantiau cynllun ARFOR 2 tuag at ddatblygu cymunedau mentrus gan Lywodraeth Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | 261 | |
| • Ailbroffilio Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig - telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru *(Adran Economi a Chymuned).* | (1,014) | (1,176) |
| • Grant cyfalaf Dechrau'n Deg a Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru *(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd).* | 1,100 | |
| • Cronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) – grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant).* | 234 | |

| | |
|---|---|
| • Grant Pethau Pwysig gan Lywodraeth Cymru i uwchraddio cyfleusterau cyhoeddus *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth).* | 131 |
| • Grant Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau 20 milltir yr awr *(Adran Amgylchedd).* | 143 |
| • Addasiadau grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | (1,067) |
| • Addasiadau grantiau Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwledig *(Adran Amgylchedd).* | (251) |
| • Grant gan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC/WCVA) – y corff cenedlaethol mudiadau gwirfoddol – tuag at gynlluniau gwledig *(Adran Amgylchedd).* | 169 |
| • Grant tuag at gerbydau dim allyriadau ac allyriadau isel iawn *(Adran Amgylchedd).* | 60 |
| • Grant Isadeiledd Sbwriel gan Lywodraeth Cymru - cywiro sefyllfa diwedd blwyddyn 22/23 *(Adran Amgylchedd).* | 392 |
| • Addasiad i gyfraniadau gan Gymdeithasau Tai lleol tuag at system TG yn y maes Tai *(Adran Tai ac Eiddo).* | (67) |
| • Cronfa Tai â Gofal (CTG/HCF) - grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau arloesol tai i gwrdd ag anghenion gofal *(Adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant; Tai ac Eiddo).* | 334 |
| • Addasiad i gyfraniadau grantiau gan Lywodraeth Cymru yn y maes Tai *(Adran Tai ac Eiddo).* | (177) |
| • Grant Llywodraeth Cymru tuag at bryniant eiddo i gwrdd â gofynion yn y maes Digartrefedd *(Adran Tai ac Eiddo).* | 659 |
| • Grant tuag at y cynllun i Ddatgarboneiddio Gwres o fewn y Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo).* | 1,755 |

| | |
|---|---|
| • Grant gan yr Energy Trust tuag at ddarpariaeth pwyntiau gwefru ceir trydan i'r Cyngor *(Adran Prif Weithredwr).* | 39 |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | |
| • Ail wynebu Maes Parcio Y Glyn, Llanberis *(Adran Economi a Chymuned).* | 42 |
| • Technoleg o fewn cab cerbydau gwastraff *(Adran Amgylchedd).* | 90 |
| **Refeniw Adrannol a Chorfforaethol** | |
| • Cyfraniadau Ysgolion tuag at amrywiol gynlluniau gan gynnwys canolfan iechyd da; ardaloedd chwarae (Ad*ran Addysg).* | 362 |
| • Cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau Morwrol a Pharciau Gwledig *(Adran Economi a Chymuned).* | 54 |
| • Cyfraniadau tuag at amrywiol gynlluniau gan gynnwys Pont Bodfel *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth).* | 82 |
| • Ariannu ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau trafnidiaeth ble nad yw'r grant yn ddigonol *(Adran Amgylchedd).* | 91 |
| • Technoleg o fewn cab cerbydau gwastraff *(Adran Amgylchedd).* | 31 |
| • Addasu'r cyfraniad refeniw tuag at gynlluniau cynnal a chadw a gyfalafwyd *(Adran Tai ac Eiddo).* | (131) |
| • Cyfraniad tuag at gynnydd pryniant offer cyfrifiadurol *(Adran Cyllid).* | 161 |

| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | |
| --- | --- |
| • Addasiad cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau *(Adran Economi a Chymuned).* | 207 |
| • Cywiro sefyllfa diwedd blwyddyn 22/23 cynllun Isadeiledd Sbwriel *(Adran Amgylchedd).* | (196) |
| • Adnewyddu Cerbydau ac Offer *(Adran Amgylchedd).* | (74) |
| • Cyfraniad y Gronfa Hinsawdd tuag at gynllun Datgarboneiddio Gwres (*Adran Tai ac Eiddo).* | 145 |

----------------------------

**ATODIAD B**

**Manylion Ail-broffilio'r Gyllideb**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2023/24<br><br>£'000 | 2024/25 - 2025/26<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill) *(Adran Addysg)* | (14,458) | 14,458 |
| Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol *(Adran Economi a Chymuned)* | (2,852) | 2,852 |
| Cynllun Adnewyddu Bangor ac eraill *(Adran Economi a Chymuned)* | (434) | 434 |
| Cronfa Ffyniant Bro *(Adran Economi a Chymuned)* | (3,805) | 3,805 |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin *(Adran Economi a Chymuned)* | (6,382) | 6,382 |
| Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig a Hamdden *(Adran Economi a Chymuned)* | (490) | 490 |
| Cynllun Canolfan Integredig Maesgeirchen ac eraill Plant *(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)* | (490) | 490 |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (3,500) | 3,500 |
| Cynlluniau Sefydliadau Preswyl, Gofal Dydd ac eraill yn y maes Oedolion *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (3,179) | 3,179 |
| Cynllun Atal Dirywiad Ffyrdd ac eraill yn y maes Priffyrdd a Pheirianneg *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth)* | (983) | 983 |
| Adnewyddu Cerbydau ac Offer *(Adrannau Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Amgylchedd; Tai ac Eiddo)* | (5,696) | 5,696 |
| Cynlluniau Risgiau Arfordirol ac Atal Llifogydd *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth)* | (3,282) | 3,282 |
| Cynlluniau Trafnidiaeth, Gwelliannau Trefol a Chynlluniau Gwledig *(Adran Amgylchedd)* | (335) | 335 |
| Meysydd Parcio - Ail wynebu, Pwyntiau Gwefru ayyb *(Adran Amgylchedd)* | (467) | 467 |

| | | |
|---|---|---|
| Adnoddau gwastraff/ailgylchu a systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd *(Adran Amgylchedd)* | (234) | 234 |
| Cynlluniau Grantiau ac Eraill Tai *(Adran Tai ac Eiddo)* | (798) | 798 |
| Cynlluniau Strategaeth Tai *(Adran Tai ac Eiddo)* | (15,986) | 15,986 |
| Cynlluniau Addasiadau i'r Anabl, Swyddfeydd a Mân-ddaliadau *(Adran Tai ac Eiddo)* | (508) | 508 |
| Cynlluniau Rheoli Carbon a Phaneli Solar y Cyngor a Datgarboneiddio Gwres *(Adran Tai ac Eiddo)* | (4,081) | 4,081 |
| Cynlluniau Gwaredu Asbestos *(Adran Tai ac Eiddo)* | (694) | 694 |
| Adnewyddu Cyfarpar Technoleg Gwybodaeth *(Adran Cyllid)* | (1,634) | 1,634 |
| Adnoddau Cynllun Asedau heb ddyrannu *(Corfforaethol)* | (3,760) | 3,760 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

**ATODIAD C**

**Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2023/24 - Alldro**

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei wariant cyfalaf a benthyca gan gyfeirio at y dangosyddion dilynol.

Mae bellach yn ofyniad yn y Côd Darbodus CIPFA i adrodd ar rhain yn rheolaidd.

Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â'r broses cau cyfrifon i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

**Gwariant Cyfalaf**

Mae'r Cyngor yn ymgymryd ac yn cynllunio gwariant cyfalaf fel a grynhoir isod.

| | **Gwir 2022/23 £m** | **Gwir 2023/24 £m** | **Cyllideb * 2024/25 £m** | **Cyllideb 2025/26 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol | 38.0 | 56.9 | 118.2 | 14.6 |
| Prydlesu Cronfa Gyffredinol * | 0.0 | 0.0 | 5.0 | 0.0 |
| **CYFANSWM** | **38.0** | **56.9** | **123.2** | **14.6** |

**Mae'r Gwariant Cyfalaf am 2024/25 yn cynnwys £5m oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau ac nid yw'n cynrychioli gwir wariant.*

Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2023/24 yn cynnwys ( gweler yr adroddiadau adolygiad am fanylion ailbroffilio lle bo'n berthnasol) :

- Cynlluniau /Strategaeth Tai - £21.6m
- Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - £16.6m
- Cerbydau Adrannol - £5.4m
- Cynlluniau Eiddo - £3.7m
- Atal Llifogydd Arfordirol - £3.0m
- Unedau Diwydiannol - £2.9m

**Gofyn Cyllido Cyfalaf**

Mesurir cyllid sy'n ariannu dyled cronnus y Cyngor yn ôl y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir drwy ddyled, ac mae'n lleihau gyda Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled.

| | **Gwir 31.3.2023 £m** | **Gwir 31.3.2024 £m** | **Amcan * 31.3.2025 £m** | **Amcan 31.3.2026 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol * | 170.8 | 173.5 | 190.1 | 191.1 |

** Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf am 2024/25 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £5m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.*

**Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf**

Yn ôl y canllaw statudol, dylai dyled aros islaw'r gofyn cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio ac yn disgwyl y bydd yn parhau i gydymffurfio â'r gofyn hyn yn y tymor canolig fel a ddangosir isod.

| | **Gwir 31.3.2023 £m** | **Gwir 31.3.2024 £m** | **Amcan 31.3.2025 £m** | **Amcan 31.3.2026 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Dyled (gan gynnwys Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau) | 102.5 | 101.3 | 98.7 | 94.0 |
| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 170.8 | 173.5 | 190.1 | 191.1 |

**Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Gweithredol**

Mae'n ofyn cyfreithiol i'r Cyngor bennu terfyn benthyg fforddiadwy (fe'i gelwir hefyd y terfyn dyled awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllaw statudol, pennir "ffin gweithredol" is. Dyma'r lefel rhybudd os bydd dyled yn agosáu at y terfyn.

| | Uchafswm Dyled 2023/24 £m | Dyled ar 31.03.2024 £m | Terfyn Awdurdodedig 2023/24 £m | Ffin Gweithredol 2023/24 £m | Wedi cydymffurfio ? |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 100.5 | 99.6 | | | |
| Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau | 1.6 | 1.6 | | | |
| **Cyfanswm Dyled** | 102.1 | 101.2 | 200 | 190 | Do |

Oherwydd mai offeryn rheolaeth at ddiben monitro o fewn y flwyddyn yw'r ffin gweithredol, nid yw'n arwyddocaol os eir yn uwch na'r ffin ar achlysur oherwydd amrywiadau mewn llif arian ac nid yw hyn yn cael ei ystyried yn fethiant i gydymffurfio.

**Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net**

Er nad yw'r gyllideb refeniw yn talu am wariant cyfalaf yn uniongyrchol, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) yn gost ar refeniw. Gelwir y ffi net flynyddol yn gostau ariannu. Cymharir hyn gyda'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a gyllidir drwy Dreth Cyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.

| | Gwir 2022/23 | Gwir 2023/24 | Cyllideb * 2024/25 | Cyllideb 2025/26 |
|---|---|---|---|---|
| Costau Ariannu * (£m) | £11.5m | £7.4m | £8.1m | £9.5m |
| Cyfran y Llif Refeniw Net (%) | 3.9% | 2.3% | 2.5% | 2.9% |

** Mae'r Costau Ariannu am 2024/25 ac ymlaen i flynyddoedd dilynol yn cynnwys £0.7m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.*

**Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys**

Mae'r dangosyddion hyn (Meincnod Ymrwymiad, Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau, Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys Tymor Hir) yn cael eu hadrodd ar wahân fel rhan o'r Adroddiad Rheolaeth Trysorlys am y cyfnod dan sylw.